Mae'r buddsoddiad hwn wedi galluogi tri Grŵp Teuluoedd Gyda'n Gilydd newydd, gan ymestyn ein cyrhaeddiad a'n heffaith ymhellach. Mae Plant Dewi bellach yn cefnogi cyfanswm o 11 o Grwpiau Teuluoedd Gyda'n Gilydd ar draws Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, gyda grŵp newydd ychwanegol wedi'i gomisiynu gan Gyngor Sir Penfro.

Roeddem hefyd yn falch o lwyddo yn y broses dendro ar gyfer Rhwydwaith Canolfannau Teulu Ceredigion, gan sicrhau'r contract am o leiaf ddwy flynedd arall. Mae hyn yn cynnig sefydlogrwydd i deuluoedd a chymunedau ledled y sir ac yn cydnabod ansawdd ac effeithiolrwydd y gefnogaeth a gynigir gan ein staff a'n gwirfoddolwyr ymroddedig.

Mae'r flwyddyn wedi arwain at lawer o gyfleoedd i ddathlu ac arddangos gwaith Plant Dewi. Ym mis Ebrill, roeddem yn falch iawn o groesawu Dawn Bowden AS i Ganolfan Deuluol Porth Tywyn, gan roi'r cyfle i ni dynnu sylw at effaith gadarnhaol ein gwasanaethau ar deuluoedd lleol.

Mae codi arian ac ymgysylltu â'r gymuned hefyd wedi bod yn flaenoriaethau pwysig eleni. Ym mis Mai 2025, cwblhaodd tîm o staff, aelodau'r Cyngor Esgobaethol dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol a chefnogwyr daith gerdded noddedig 26 milltir o hyd o Ddwyrain Waltwn i Dyddewi, gan godi arian ac ymwybyddiaeth mawr eu hangen i Plant Dewi.



Roedd ein Diwrnod Hwyl i'r Teulu blynyddol yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru unwaith eto yn llwyddiant ysgubol, gan ddenu cannoedd o rieni a phlant ac arwain at adborth hynod gadarnhaol.

Mae Plant Dewi wedi parhau i chwarae rhan weithredol ym Mlwyddyn Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yr Esgobaeth, gan gryfhau perthnasoedd ag eglwysi a chynyddu ymgysylltiad mewn cymunedau ar draws yr Esgobaeth. Mae'r cysylltiadau hyn yn ein helpu i adeiladu partneriaethau cryfach ac ehangu cyrhaeddiad ein gwaith i hyd yn oed mwy o deuluoedd.

Roeddem hefyd yn falch o gyfrannu gweithgareddau i blant a theuluoedd fel rhan o Ŵyl Rhyddid Esgobaeth Tyddewi ar ddiwedd yr haf.

Un achlysur arbennig oedd gwasanaeth Plant Dewi, a gynhaliwyd yn Eglwys Dewi Sant, Abergwili, a fynychwyd gan Esgob Tyddewi. Roedd y gwasanaeth yn dathlu cyflawniadau Plant Dewi ac yn cydnabod cyfraniad aruthrol staff, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a ymddiriedolwyr a chefnogwyr sydd wedi helpu'r sefydliad i dyfu a ffynnu dros y blynyddoedd.

Cawsom hefyd yr anrhydedd o ymuno â chydweithwyr yn Nhir Dewi i ddathlu eu deng mlwyddiant. Rhoddodd y Gwasanaeth Cynhaeaf arbennig a gynhaliwyd ym Mart Caerfyrddin gyfle i gydnabod degawd o gefnogaeth a gwasanaeth gwerthfawr i gymunedau gwledig ac i ddathlu'r berthynas agos rhwng ein sefydliadau.



Daeth tymor yr ŵyl â chyfleoedd pellach i ymgysylltu â'n cymunedau drwy ddigwyddiad Nadolig yr Esgob yn Llys Esgob a chyngerdd Nadolig a groesawodd bobl o bob oedran.

Trwy ein Hapêl Nadolig Bwndel Babi, bu hefyd yn bosibl i ni roi anrhegion i'r teuluoedd a dderbyniodd Fwndeli Babi yn ystod mis Rhagfyr, gan helpu i ddod â llawenydd a chefnogaeth ychwanegol ar adeg pan mae llawer o aelwydydd yn profi mwy o bwysau ariannol.

Roedd Bore Coffi blynyddol Grŵp Cymorth Caerfyrddin, a fynychwyd gan Faer Caerfyrddin ar y pryd, Heledd ap Gwynfor, yn gyfle gwych arall i ddathlu cefnogaeth gymunedol a chodi arian ar gyfer ein gwaith.

Derbyniodd teulu Plant Dewi newyddion trist eleni hefyd gyda marwolaeth ein ffrind annwyl a'n cefnogwr hirsefydlog, Sulwyn Thomas, ym mis Rhagfyr 2025. Roedd Sulwyn yn eiriolwr brwd dros Plant Dewi ac yn gefnogwr gwerthfawr o'n gwaith am flynyddoedd lawer. Bydd ei gynhesrwydd, ei haelioni a'i ymrwymiad i helpu teuluoedd yn cael eu cofio gan bawb a oedd yn ei adnabod. Rydym yn ei golli'n fawr, ac rydym yn parhau'n ddiolchgar am y cyfraniad a wnaeth i'r sefydliad a'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Fel gyda llawer o sefydliadau yn y sector gwirfoddol, rydym wedi wynebu heriau yn ystod y flwyddyn. Mae recriwtio wedi bod yn arbennig o anodd ar gyfer rolau oriau isel,ac mae cyllid yn parhau i fod yn bryder sylweddol, gyda chostau gweithredol cynyddol a mwy o alw am wasanaethau ochr yn ochr â lleihad yn y cyllid grant sydd ar gael. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae ymrwymiad, gwytnwch a chreadigrwydd ein staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr wedi ein galluogi i barhau i gynnig cefnogaeth werthfawr i deuluoedd ar draws ein cymunedau.

Plant Dewi – lle mae teuluoedd yn bwysig.

Catrin Eldred, Rheolwr

Prosiect Tadau Plant Dewi

Uchafbwyntiau

'Mae'r sesiynau yn y llain wedi bod yn wych i mi – maen nhw'n rhoi rheswm i fi fynd mas ac anghofio fy mhroblemau am gyfnod'

- Ein Polycrub, a adeiladwyd o'r sylfeini. Mae bron wedi'i gwblhau nawr – gan ddatblygu sgiliau adeiladu tîm a sgiliau ymarferol gyda'r tadau.
- Mae hwyl 'Dad a Fi' yn tyfu ac yn cyrraedd mwy o ysgolion iau yn Ne Sir Benfro gyda'n sesiynau ar ôl ysgol.
- Sesiwn 'Dr Beic' yn y llain yn cefnogi trafnidiaeth gynaliadwy a rhannu sgiliau cynnal a chadw beiciau, gan gadw teuluoedd i symud.

TROSOLWG O'R FLWYDDYN

MMae Prosiect y Tadau yn parhau i annog tadau i rwydweithio a chefnogi ei gilydd trwy ystod o weithgareddau wedi'u lleoli yn ein canolfan leol yn CBC Greenlinks, gan weithio mewn partneriaeth ag ysgolion lleol a chefnogi gweithgareddau a phrosiectau cymunedol sydd o fudd i bobl leol yn

Sir Benfro.

Rydym wedi cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau eleni gan gynnwys garddio, gwaith coed, weldio, cynnal a chadw beiciau a sgiliau DIY i enwi ond rhai. Mae'r dysgu, gweithgareddau corfforol a chymdeithasu wedi cefnogi lles tadau.



Mae gweithgareddau ar gyfer tadau a phlant wedi parhau i gynnal ffocws cryf wrth i ni geisio cynnig cyfleoedd i dadau a'u plant gael hwyl gyda'i gilydd a chreu atgofion.

Ein prif weithgaredd ar y llain arddio Tyfu Gobaith oedd adeiladu ein polytwnnel polycarbonad cadarn, y Polycrub, sydd bron â'i gwblhau. Bydd y strwythur yn helpu i liniaru rhai o'n heriau hinsawdd. Bydd hyn yn ei dro yn cefnogi darparu bwyd i dadau a'r banc bwyd yn ogystal â chreu amgylchedd dysgu gwych am flynyddoedd i ddod.

Prosiect Rhieni Ifanc

> *Mae'r grŵp hwn wedi bod yn achubiaeth. Cyn ymuno, doedd gen i ddim ffrindiau.*

Uchafbwyntiau

- Roedd mor galonogol ac yn syndod gweld cymaint o rieni ifanc yn cefnogi digwyddiad lansio loteri Plant Dewi.
- Mae'r cynnydd mewn atgyfeiriadau un-i-un yn Sir Gaerfyrddin yn dangos pa mor gryf mae'r angen yn lleol.
- Mae'r newid yn y lleoliad i rieni ifanc yng Nghaerfyrddin a'r cynnydd mewn atgyfeiriadau 1-1 wedi arwain at bresenoldeb gwell a chyson.

TROSOLWG O'R FLWYDDYN

Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd yr ansicrwydd ynghylch cyllid yn bryder sylweddol i'r tîm. Fodd bynnag, bu'n bosibl i ni ymlacio dros yr haf ar ôl derbyn y newyddion gwych bod ein cais loteri wedi bod yn llwyddiannus.

Ers hynny, mae'r prosiect wedi mynd o nerth i nerth yn Sir Gaerfyrddin, gyda nifer cynyddol yn mynychu grŵp Rhydaman a chynnydd cyson mewn atgyfeiriadau un-i-un. Mae ein dau weithiwr prosiect wedi chwarae rhan allweddol yn y twf hwn, gan weithio'n galed ar allgymorth a chynnig y gefnogaeth sydd ei hangen ar rieni ifanc.

Er bod grŵp Caerfyrddin wedi bod yn araf



i ddechrau yn denu teuluoedd newydd, mae symud i leoliad mwy addas wedi gwneud gwahaniaeth clir, gyda rhieni ifanc bellach yn fwy parod i ymgysylltu.

Ar ôl ymgynghori â'r rhieni ifanc, mae ystod eang o weithgareddau wedi'u cyflwyno, o sesiynau crefft a meddwlgarwch i iaith a chwarae, coginio, tylino babanod ac adeiladu tîm. Yn bwysicaf oll, mae staff wedi gallu cynnig clust i wrando i rieni, gan ddarparu cefnogaeth trwy gyfnodau heriol.

Grwpiau Teuluoedd Gyda'n Gilydd

Uchafbwyntiau

"Mae'r grŵp wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'n trefn ac wedi rhoi rhywbeth cadarnhaol i ni fynychu."

- Gwnaeth arian y loteri ein galluogi i gynnal Grwpiau Teuluol Cwm-gors a Crosshands wrth lansio tri grŵp newydd ar draws y sir, gan ehangu cefnogaeth a chryfhau teuluoedd ar draws ein cymunedau.
- Ar hyn o bryd mae yna un ar ddeg o Grwpiau Teuluoedd Gyda'n Gilydd.
- Mae digwyddiadau lleol a drefnir gan Grŵp Teulu wedi caniatáu i ni ddod yn fwy amlwg yn y gymuned.

TROSOLWG O'R FLWYDDYN

Dechreuon ni'r flwyddyn gyda rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â chyllid, ond erbyn yr haf cawsom newyddion gwych; cefnogaeth barhaus i'n grwpiau, ynghyd â buddsoddiad i dyfu i ardaloedd newydd. Mae'r bleidlais honno o hyder wedi rhoi egni newydd i'n tîm a'n cymunedau, gan wneud 2025 yn flwyddyn o ddathlu. Mae wedi bod yn arbennig o galonogol gweld cyfranogiad teuluoedd yn cynyddu ar draws y siroedd, gan ddangos pa mor werthfawr yw'r gefnogaeth hon.

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd un ar ddeg Grŵp Teuluol ar draws ein cymunedau. Parhaodd grwpiau yn Ninbych-y-pysgod, Hwlffordd, Llandeilo a Chastellnewydd Emlyn i weithredu gyda chefnogaeth cyllid awdurdod lleol. Cynhaliwyd y grwpiau yn



Noc Penfro a'r Mount trwy gyllid gan Elusen Henry Smith.

Diolch i'n cais llwyddiannus i'r Loteri Genedlaethol, bu'n bosibl i ni nid yn unig gynnal y ddarpariaeth yng Nghwm-gors a Crosshands, ond hefyd ehangu ein cyrhaeddiad drwy agor grwpiau newydd ym Mrynaman, Llanymddyfri a Hendy-gwyn ar Daf. Mae'r twf hwn yn ein galluogi i ddod â sesiynau i hyd yn oed mwy o deuluoedd, gan gryfhau rhwydweithiau cymorth a chynyddu mynediad i weithgareddau blynyddoedd cynnar a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar deuluoedd ledled y rhanbarth.

Banc Bwndel Babi

Uchafbwyntiau

> *'Roeddwn i mor hapus, y gair rydw i eisiau ei ddefnyddio yw rhyddhad.'*

- Gweithio mewn partneriaeth â grŵp uwchgylchu i sicrhau bod gan y prosiect ddigon o offer, tra'n hyrwyddo ailgylchu, cynaliadwyedd, ac amgylchedd iachach i gymunedau lleol.
- Llwyddwyd i sicrhau dwy flynedd o gyllid drwy'r Sefydliad Masonaidd.
- Mae dod yn rhan o'r Gynghrair Bwndel Babi wedi bod yn fuddiol iawn i'r prosiect. Mae wedi rhoi gwybodaeth a syniadau gwerthfawr i staff am Fanciau Babi eraill ledled y wlad, gan feithrin arbenigedd cyffredin a helpu i adeiladu partneriaethau cryfach.

TROSOLWG O'R FLWYDDYN

Cafodd y prosiect Bwndel Babi flwyddyn gynhyrchiol arall, gyda 289 o fwndeli wedi'u dosbarthu i rieni mewn angen ar draws tair sir, gan gynnwys Gwauncaegurwen.

Ar ôl cau canolfan Crosshands, symudodd y prosiect yn llwyddiannus i swyddfa Plant Dewi. Mae'r symudiad hwn wedi bod o fudd mawr, gyda'r gofod newydd yn gwella llif gwaith, cefnogi darpariaeth lyfnach, a gwella gweledded adnoddau. O ganlyniad, mae ymwybyddiaeth y cyhoedd wedi tyfu ac mae atgyfeiriadau a rhoddion wedi cynyddu.

Mae'r prosiect yn parhau i ddibynnu ar wirfoddolwyr ymroddedig. Mae wyth gwirfoddolwr bellach yn cefnogi'r gwasanaeth ar draws yr esgobaeth: un yn



Sir Benfro, un yng Ngheredigion, dau yng Nghastellnewydd Emlyn, a phedwar yng nghanolfan Caerfyrddin. Mae eu hymrwymiad yn sicrhau bod teuluoedd yn derbyn cefnogaeth amserol a thosturiol wrth helpu'r prosiect i ymateb i'r galw cynyddol.

Mae staff a gweithwyr proffesiynol hefyd wedi gweithio ar y cyd trwy gydol y flwyddyn, gan rannu gwybodaeth a chydlynu cymorth.Mae'r gwaith tîm cryf hwn yn sicrhau bod teuluoedd yn derbyn gofal cyson, o ansawdd uchel pan fydd ei angen arnynt fwyaf.

Canolfan Deulu Betws 'Tŷ Tyfu'

Uchafbwyntiau

> *Rhywle lle galla i fynd yn edrych a theimlo ar fy ngwaethaf ond cael fy nghefnogi a'm croesawu.*

- Mae'r ganolfan yn cynnig cymuned ddibynadwy, groesawgar lle mae plant yn dysgu trwy chwarae a lle mae teuluoedd yn cael cymorth, yn gwneud ffrindiau, yn lleihau unigrwydd, ac yn tyfu gyda'i gilydd.
- Digwyddiadau tymhorol gan gynnwys gweithgareddau'r Pasg, yr Haf a'r Nadolig, gan ddod â theuluoedd at ei gilydd i ddathlu a lleihau unigrwydd cymdeithasol trwy rannu profiadau.
- Cymorth bwyd parhaus, clybiau cinio a chymorth ymarferol i deuluoedd, gan helpu i leihau pwysau costau byw a gwella lles yn lleol.

TROSOLWG O'R FLWYDDYN

Rydym wedi parhau i ddarparu cymorth hanfodol i deuluoedd yn yr ardal. Gwnaethom gyflwyno rhaglen gyson o sesiynau wythnosol ar gyfer babanod, plant bach a rhieni trwyr flwyddyn. Mae'r gweithgareddau wedi cynnig lle gall plant ddysgu a datblygu, tra bod rhieni a gofalwyr yn magu hyder a cysylltu ag eraill.

Rydym wedi canolbwyntio ar leihau unigrwydd, gwella lles a sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael mynediad at gyfleoedd fforddiadwy. Mae ein clwb cinio a'n gweithgareddau teuluol yn helpu i ddod â phobl at ei gilydd wrth hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a pherthnasoedd cadarnhaol.

Gwnaethom hefyd gynnig cymorth ymarferol i deuluoedd sy'n profi pwysau



ariannol trwy atgyfeirio, dosbarthu bwyd dros ben, a gweithgareddau am ddim.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn gryfder sy'n ein galluogi i gynnig rhaglen o gymorth a sicrhau cyfleoedd amryw i deuluoedd. Chwaraeodd gwirfoddolwyr ran hanfodol yn llwyddiant y ganolfan, gan gyfrannu eu hamser, eu sgiliau a'u brwdfrydedd. Gwnaeth y ganolfan barhau i fod yn ofod croesawgar, dibynadwy lle roedd teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu cysylltu a'u grymuso.

Canolfan Gymunedol y Borth

Uchafbwyntiau

Mae fy mhlentyn wedi dod allan o'i chragen gymaint. Mae hi wedi gwneud ffrindiau, magu hyder a bob amser yn gadael yn gwenu

- Mwynhawyd ein gweithgaredd celf creadigol, a oedd yn pontio'r cenedlaethau ac yn seiliedig ar natur, gan ryw 20 o deuluoedd.
- Mwynhaodd 45 o deuluoedd ddod i weld Siôn Corn yn ei groto. Gwnaethom gynnwys amser ADY hefyd a oedd yn boblogaidd iawn.
- Diwrnod hwyl, prysur a phoblogaidd....cefnogaeth wych gan wirfoddolwyr i wneud iddo ddigwydd.

TROSOLWG O'R FLWYDDYN

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur arall yng Nghanolfan Deulu Borth. Rydym wedi treulio llawer o amser yn ein canolfan natur, "Ynyslas", yn mwynhau gweithgareddau natur, crefftau, helfeydd pryfed, teithiau cerdded natur ac amser stori.

Mae ein Clwb Lego, a oedd yn canolbwyntio ar gefnogaeth emosiynol, wedi mynd o nerth i nerth ac rydym bellach yn cynnal gweithgareddau awyr agored yn ogystal â rhywfaint o goginio - i gyd ar thema Lego.

Rydym wedi gallu cefnogi ein teuluoedd yn wythnosol gyda Borth Actif, Chwarae Awyr Agored, Clwb Cinio Bach a Bwmps a Babis. Rydym hefyd wedi gallu cynnal



Cwrs Cysylltiadau Teuluol llwyddiannus – gan helpu i gryfhau sgiliau magu plant a lles teuluoedd, yn ogystal â Thylino Babanod, sy'n helpu gydag ymlyniad a bondio.

Mae ein digwyddiadau arbennig bob amser yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y gymuned, o Ddiwrnodau Hwyl i Groto Siôn Corn a digwyddiadau Dillad a Theganau Ail-law.

Mae cymaint o'n gweithgareddau yn cael eu cefnogi gan ein gwirfoddolwyr. Rydym mor ddiolchgar am eu cefnogaeth – hebddyn nhw fydden ni ddim yn gallu rhedeg ein sesiynau amrywiol i deuluoedd.

Canolfan Deuluol Porth Tywyn

Uchafbwyntiau

> *Rydw i wrth fy modd yn y sesiynau, mae'r gefnogaeth gan famau eraill a'r staff gwych yn anhygoel*

- Gwaith partneriaeth gyda Bydwragedd - cafodd 37 o ddarpar famau ac 8 o bartneriaid fynediad at gymorth yn eu cymuned.
- Gwnaeth cyllid Pobl gefnogi 56 o deuluoedd i ymweld ag Amgueddfa Caerdydd a'r Mamoth "Tom Bones" a Sain Ffagan i ddysgu am ein treftadaeth.
- Gwnaeth Gweithdai Coginio Cymunedol gefnogi 20 o deuluoedd i goginio gyda chynhwysion ffres a dysgu i ddefnyddio Ffrïwyr Aer.

TROSOLWG O'R FLWYDDYN

Parhawyd i adeiladu ar y sylfeini o ddod yn grŵp cymorth ar gyfer y gymuned gyfan a symudwyd grŵp Cydweli i Ystafelloedd y Plwyf. Rhoddodd Pheonix Garden Services blanhigion llysiau a blodau i'n gofod cymunedol, gan gefnogi teuluoedd i ddeall o le mae ein bwyd ni'n dod. Cafodd teuluoedd gyfle i fynychu digwyddiad Gerddi Botaneg Cenedlaethol Plant Dewi, diwrnod gwych. Mae gweithio gyda Mens Shed wedi rhoi coed ffrwythau i ni yn ein gofod cymunedol, a chefnogwyd y prosiect gan yr Asda Foundation. Gwnaethom geisio a sicrhau cyllid ar gyfer gwaith prosiect a chostau craidd. Lansiwyd sesiwn Cornel Greadigol ar ôl ysgol, a chefnogwyd plant sy'n cael eu haddysgu gartref.

Gwnaethom adeiladu ar ein gwaith partneriaeth, cydweithio â Dechrau'n Deg a



Threshold ar gyrsiau, hwyluso gofod ar gyfer Cydlynwyr ADY, Seicolegwyr Plant a CAMHS. Cynhaliwyd digwyddiadau ail-roi anrhegion, dillad, teganau ac offer. Rydym yn dal i fod yn rhan o Rwydwaith Canolfannau Teulu Sir Gaerfyrddin gan sicrhau arfer gorau i'r teuluoedd a'r cymunedau rydym yn eu cefnogi. Cynhaliwyd teithiau, diwrnodau allan a llawer mwy, gan greu atgofion cadarnhaol mewn cymaint o ffyrdd.

Canolfan Deuluol Felinfoel

Uchafbwyntiau

> "Lle o dawelwch. Mae'r staff yn barod i gefnogi pawb. Diolch am bopeth rydych chi wedi'i wneud i fi"

- Rydym yn parhau i gydweithio â Chanolfannau Teuluol St Paul a Morfa - gan arwain at gyfleoedd newydd a chyffrous i'r Ganolfan Deuluol a'i theuluoedd.
- Bu'n bosibl cynnal digwyddiad goleuadau Coeden Nadolig hyfryd drwy gydweithio â'r Meithrin, staff ICC, yr Ysgol Gynradd a chynghorwyr lleol.
- Hyfforddodd y Cydlynydd mewn Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma – gan ddilysu a herio ein ffordd o weithio – gyda chyfleoedd newydd i droi dysgu yn ymarfer.

TROSOLWG O'R FLWYDDYN

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn brysur arall o ymdrechu i ddarparu cymaint o brofiadau a chyfleoedd cadarnhaol â phosibl i ganiatáu i deuluoedd gysylltu a ffynnu.

Yn ogystal â'n sesiynau prysur sy'n cynnwys: Grŵp Babanod wythnosol sy'n rhedeg ochr yn ochr â Chlinig Ymwelwyr Iechyd ac yn canolbwyntio ar gefnogi'r bond rhwng rhiant a phlentyn; grwpiau plant bach bob pythefnos sy'n cynnig gweithgareddau cysylltiad a chefnogi datblygiad a chlwb hwyl wythnosol i'r teulu lle mae teuluoedd yn cwrdd ar ôl ysgol i gymdeithasu, chwarae a mwynhau pryd o fwyd cartref, mae'r ganolfan deuluol wedi cynnig amrywiaeth o ddigwyddiadau a gwibdeithiau arbennig.



Mae'r rhain yn cynnwys dathliad diwrnod VE arbennig, ymweliadau gan rai anifeiliaid carbennig, calendr adfent cymunedol enfawr a theithiau i draethau, ardaloedd chwarae a pharciau.

Mae rhieni wedi parhau i ddod at ei gilydd i wneud ffrindiau a dysgu sgiliau newydd gyda gweithdai a chyrsiau mewn coginio, crefftau, cyllidebu a hyd yn oed celf ewinedd.

Edrychwn ymlaen at barhau i wasanaethu'r gymuned gysylltiedig hon o deuluoedd sy'n helpu cymaint gydag unigrwydd a lles y rhieni a'r plant.

Canolfan Deuluol Garnant 'Tots Tŷ Ni'

Uchafbwyntiau

> *"Wedi fy nghael i mas o'r tŷ, fy helpu i wneud ffrindiau newydd, a helpu gyda fy ngorbryder cymdeithasol"*

- Gwnaethom gymryd rhan mewn Gŵyl Narnia, mewn digwyddiad lleol, lle gwnaethom ddarparu crefftau gyda sefydliadau eraill i helpu i roi profiad Nadolig am ddim i deuluoedd yn y gymuned leol.
- Gwnaethon greu llawer o swigod gyda'n cymysgedd ein hunain. Roedden nhw'n boblogaidd mewn digwyddiadau allgymorth ac yn ystod gweithgareddau'r haf yn y Ganolfan Deuluol.
- Dathlodd Canolfan Deuluol Garnant ei 25 mlwyddiant trwy gynnal llawer o weithgareddau gwahanol i deuluoedd. Gwnaeth y plant fwynhau'r sgiliau syrcas.

TROSOLWG O'R FLWYDDYN

Mae 2025-2026 wedi bod yn gyfnod prysur ar gyfer 25 mlwyddiant Canolfan Deuluol Garnant. Gwnaeth gweithgareddau'r gwyliau gynnwys amrywiaeth o gyfleoedd chwarae corfforol hwyl a diddorol i blant a theuluoedd. Roedd y neuadd yn llawn byrddau cydbwyso, troellwyr mawr, blociau a theiars. Gwnaeth y plant fwynhau rholio'r teiars ar hyd y llawr, adeiladu tyrau a chreu eu profiadau chwarae dychmygus eu hunain. Ym mis Hydref, gwnaethom hefyd gynnal digwyddiad Llwybr Pwmpenni. Er gwaethaf y tywydd gwlyb, gwnaeth y teuluoedd fwynhau cymryd rhan yn y llwybr a rhannu tatws pôb gyda'i gilydd wedyn. Rydym wedi cynnal digwyddiadau allgymorth mewn gwahanol leoliadau gyda sefydliadau eraill dros y Gwyliau Haf, lle



gwnaethom gynnig gweithgareddau am ddim. Mae ein sesiynau rheolaidd wedi parhau gyda Thylino Babanod, O Fwmp i Fabi. Ymwelodd Awel Aman Tawe â'n Grŵp Plant Bach a Babanod gan roi cyngor a chymorth ynni ac, yn ystod ein Grŵp Garddio Plant Bach, cawsom sesiynau coginio gyda Foothold. Mae aelod o staff wedi cynnig cyfleoedd dysgu Cymraeg i deuluoedd, tra bod aelodau eraill o staff wedi cynnig crèche i gefnogi cyfranogiad rhieni yn y sesiwn hon.

Canolfan Blant Jig-so

Uchafbwyntiau

"Mae'r staff yn anhygoel - nhw yw'r rheswm pam mae'r sesiynau'n rhedeg mor llyfn ac mae pawb yn cael hwyl"

- Gweithgareddau haf Jig-So. Gwnaethom gefnogi dros 400 o deuluoedd ar draws y tair sir yn haf 2025 yn unig.
- Mae Prosiectau Bwyd Jig-So wedi gallu cynnig cefnogaeth werthfawr i deuluoedd o ran bwyd. Rydym wedi cynnig bwyd am ddim trwy gydol y flwyddyn yn y rhan fwyaf o'n sesiynau ac mae teuluoedd yn dweud bod hyn wedi helpu gyda'r gost a'r straen o ddarparu bwyd i'w teuluoedd.
- Digwyddiadau - Pasg, parti haf, Calan Gaeaf a'r Nadolig. Mae ein partïon tymhorol bob amser yn boblogaidd iawn ac yn gyfle i'r gymuned ddod at ei gilydd a dathlu.

TROSOLWG O'R FLWYDDYN

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth Canolfan Blant Jig-So gadw pethau'n brysur, hwyl a chroesawgar i deuluoedd ledled yr ardal. Gwnaethom barhau i gynnal ein sesiynau chwarae rheolaidd yn ystod y tymor i blant 0–14 oed, gan gynnwys Amser Chwarae yn y ganolfan, ein sesiwn ar ôl ysgol yng Nghapel Bethania, a grŵp Sgwrsio a Chwarae Llechryd gyda Dechrau'n Deg. Rhoddodd y sesiynau hyn ddigon o le i blant chwarae, archwilio a gwneud ffrindiau, tra bod rhieni'n cael cyfle i gysylltu a chael eu cefnogi.

Yn ystod y gwyliau ysgol, aethom â'r chwarae allan i'r gymuned gyda'n sesiynau n allgymorth, gan gynnig gweithgareddau creadigol am ddim i deuluoedd mewn lleol.



Gwnaethom hefyd redeg amrywiaeth o gyrsiau ymarferol i rieni, o weithdai coginio i waith coed a chelf a chrefft, gan helpu i feithrin hyder a sgiliau ymarferol.

Un uchafbwynt go iawn eleni oedd cael Cydlynydd Gwirfoddolwyr ymroddedig o fis Gorffennaf i fis Rhagfyr. Diolch i'r gefnogaeth hon, gwnaethom groesawu a chadw deg gwirfoddolwr gwych sydd bellach yn chwarae rôl bwysig mewn sesiynau yn y ganolfan ac mewn sesiynau allgymorth, gan ychwanegu egni, syniadau a phâr ychwanegol o ddwylo.

Canolfan Deuluol Llambed

Uchafbwyntiau

Cwrdd â mamau eraill. Mae fy mhlentyn yn dysgu sgiliau cymdeithasol gyda phlant eraill o'i hoedran hi.Mae'r clwb cinio yn wych hefyd.

- Gwnaethom lansio ein Caffi Crefft yn llwyddiannus, lle daeth aelodau o'r gymuned at ei gilydd i fwynhau crefftau a rhannu cinio.
- Mae gwaith wedi dechrau ar ein gardd, gan greu gofod lle gallwn ni dyfu perlysiau a llysiau gyda'n gilydd, gyda chynlluniau i ymgorffori ein geodom.
- Rydym wedi ffurfio partneriaeth â staff yng Nghoedwig Longwood i gyflwyno sesiynau drwy gydol y flwyddyn yn Longwood a'r Ganolfan Deuluol.

TROSOLWG O'R FLWYDDYN



Gwelodd blwyddyn brysur a llwyddiannus arall yn y ganolfan lansiad ein sesiynau Caffi Creadigol mewn partneriaeth ag Arts 4 Wellbeing. Croesawodd y sesiynau hyn bobl o bob oed o'r gymuned leol, asiantaethau allanol, a hyd yn oed offeiriaid a oedd yn ymweld o Nigeria.

Roedd yn wych gweld cyfranogwyr yn adeiladu perthnasoedd newydd rhwng y cenedlaethau wrth ddysgu sgiliau crefft, archwilio eu creadigrwydd, a rhoi cynnig ar weithgareddau newydd. Bob wythnos, daeth pawb at ei gilydd i fwynhau cinio blasus, gan greu cyfleoedd i sgwrsio, gwneud ffrindiau, ac adeiladu ymdeimlad cryfach o gymuned.

Pan oedd y tywydd yn caniatáu, gwnaethon dreulio amser yn yr ardd yn adeiladu geodom a datblygu ein gofod awyr agored. Yn ystod ymweliadau â Choedwig Longwood, gwnaethom greu planwyr pren i baratoi ar gyfer ein prosiect gardd fwyd, yr edrychwn ymlaen at weithio arno yn ystod y misoedd nesaf.

Gwnaethom hefyd fwynhau sawl taith undydd gofiadwy, gan gynnwys ymweliadau â Fferm Ynys Aberteifi a'r Gerddi Botaneg, gan roi cyfle i gyfranogwyr ddysgu, cymdeithasu a mwynhau profiadau newydd gyda'i gilydd.

Canolfan Deuluol Llandysul

Uchafbwyntiau

Mae'r grwpiau'n wych ar gyfer fy hwyliau – maen nhw'n gwneud i chi deimlo'n fwy parod i ymdopi â heriau o ddydd i ddydd.

- Mae teuluoedd wedi mwynhau teithiau i Lanerchaeron, Amgueddfa Wlân Cymru, Parc Fferm Ynys Aberteifi.
- Rydym wedi cynnal sesiynau creadigol poblogaidd gydag Arts4Wellbeing a sesiynau coginio gydag Ein Cegin.
- Mae teuluoedd wedi elwa o gyrsiau rhianta gan gynnwys GroBrain a Chysylltiadau Teuluol mewn cydweithrediad â Dechrau'n Deg.

TROSOLWG O'R FLWYDDYN

Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur arall yn Llandysul yn cefnogi amrywiaeth eang o deuluoedd ar draws y gymuned.

Trwy gydol y gwanwyn a'r haf rydym wedi parhau i ddatblygu ein gweithgareddau awyr agored gyda'n sesiynau 'Chwarae ac Archwilio' wythnosol yn y parc, gan ddatblygu a chryfhau hyder a gwytnwch teuluoedd i archwilio gweithgareddau synhwyraidd a natur awyr agored gyda'u plant. Rydym wedi mwynhau teithiau i Lanerchaeron, yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol a Pharc Fferm Ynys Aberteifi a bu'n bosibl i ni gynnig trafnidiaeth i rai teuluoedd.

Gwnaeth y teuluoedd fwynhau cymryd rhan yng Ngharnifal Llandysul a diwrnod chwarae RAY a mwynhau defnyddio tocyn y ganolfan



deuluol i'r Gerddi Botaneg Cenedlaethol.

Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi cynnal sesiynau gydag Arts4Welbeing a Phrosiect Treftadaeth Ein Cegin.

Mae sesiynau Cerddoriaeth a Symudiad a Zumbini wedi parhau yn y Pafiliwn Criced.

Rydym wedi cydweithio â Dechrau'n Deg a bydwragedd lleol i hwyluso cyrsiau rhianta a chynenedigol gan gynnwys GroBrain, Cysylltiadau Teuluol a Paratoi i Fod yn Rhiant, gan helpu i gryfhau sgiliau rhianta a lles.

Canolfan Deuluol Llanybydder

Uchafbwyntiau

> *Bob amser yn gefnogol ac yn ymateb i anghenion ychwanegol ac anghenion emosiynol. Mae 'na ddiwylliant cynhwysol a derbyngar yn y ganolfan.*

- Digwyddiad haf Picnic yn y Parc gyda Menter Sir Gâr a Chlwb Rygbi Llanybydder yn cynnwys gemau, adloniant, stondinau a gweithgareddau cymunedol.
- Dathliad Santes Dwynwen gyda'r ddiddanwraig Lowri Sion yn croesawu plant cyfnod sylfaen ysgol Llanybydder, gan gryfhau cysylltiadau cymunedol ac annog cyfranogiad drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gwneud pizza yn y Welsh House, Caerfyrddin, lle gwnaeth teuluoedd gyfarfod â Wynne Evans a gweld ei dlws MasterChef, gan greu profiadau cofiadwy gyda'i gilydd.

TROSOLWG O'R FLWYDDYN

Drwy gydol 2025/26, cynhaliodd Canolfan Deuluol Llanybydder amrywiaeth eang o weithgareddau yn cefnogi teuluoedd, plant lleol a'r gymuned ehangach. Roedd y sesiynau wythnosol yn cynnwys Aros a Chwarae, Grwpiau Babanod a Phlant Bach, Cylch Ti a Fi, Amser Chwarae, Cymraeg i Blant, Tylino Babanod, Siaradwyr Bach a Babbling Babies. Gwnaeth gwaith partneriaeth barhau i fod yn ffocws pwysig, gyda sesiynau'n cael eu cyflwyno ochr yn ochr â sefydliadau gan gynnwys Actif-i-ti, Cyngor Sir Ceredigion, Plant Dewi ac Ambiwlans Sant Ioan.

Gwnaeth teuluoedd fwynhau teithiau, dathliadau tymhorol a digwyddiadau cymunedol a gynlluniwyd i leihau unigrwydd, gwella lles a chryfhau perthnasoedd.

Roedd y gweithgareddau'n cynnwys



ymweliadau â Pharc Fferm Ynys Aberteifi, Llanerchaeron, Gwarchodfa Natur Cors Caron a Krazy Horses, ac hefyd digwyddiadau lleol fel Carnifal Llanybydder a diwrnodau hwyl cymunedol. Gwnaeth gweithgareddau gyda Chartref Nyrsio Alltymynydd annog cysylltiadau ystyrlon rhwng plant a thrigolion hŷn.

Yn ystod y flwyddyn hefyd gwelwyd cefnogaeth barhaus i ddatblygu'r Gymraeg a phontio mewn ysgolion, gan helpu teuluoedd i adeiladu hyder, cyfeillgarwch a chysylltiadau cymunedol cryfach mewn amgylchedd croesawgar a chynhwysol.

Canolfan Deuluol Morfa

Uchafbwyntiau

> *"Mae'r ganolfan wedi bod yn help enfawr i'm hiechyd meddwl – mae'r staff yn groesawgar a chyfeillgar! Rwy'n falch fy mod i wedi dechrau dod."*

- Gwnaeth nifer o ymweliadau cymunedol, gan gynnwys teithiau i'r Gerddi Botaneg, Y Ffwrnes a Pharc Gwledig Pen-bre, gryfhau cysylltiadau, gydag adborth cadarnhaol ac ymdeimlad cryfach o gymuned ymhlith teuluoedd.
- Gwnaeth Clwb Cinio Aros a Chwarae gynnig gweithgareddau dan do ac awyr agored am ddim dan arweiniad y plant, gan roi cyfleoedd i blant archwilio tra bod oedolion yn cymdeithasu a bondio. Cynigiwyd Pecynnau Coginio i ddarparu pryd teuluol maethlon yn wythnosol.
- Gwnaeth ein partneriaeth ag Actif Llanelli a chanolfannau cyfagos ddarparu gweithgareddau corfforol hwyl. Cydweithiwyd ar Brosiect Allgymorth gyda Chanolfannau Teuluol St Paul a Felin-foel.

TROSOLWG O'R FLWYDDYN

Mae eleni wedi cynnig ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr i deuluoedd yn ein cymuned. Gwnaeth grwpiau babanod wythnosol gefnogi rhieni newydd i gysylltu, tra bod Clwb Cinio Aros a Chwarae wedi annog chwarae rhydd, rhyngweithio cymdeithasol a rhannu phrofiadau. Gwnaeth pecynnau coginio a sesiynau lles gefnogi teuluoedd gyda chreadigrwydd, ymlacio a rheoli costau byw.

Gwnaethom weithio mewn partneriaeth ag Actif Llanelli i gynnal gweithgareddau diddorol a sesiynau chwarae cydweithredol gyda chanolfannau cyfagos. Gwnaeth teuluoedd hefyd fwynhau teithiau i Erddi Botaneg Cenedlaethol Cymru. Gwnaeth digwyddiadau tymhorol fel Barbeciw'r Haf, y Diwrnod



Chwaraeon, ymweliad Siôn Corn, Cyfnewid Teganau'r Nadolig gyda Tiny Tots Town Llanelli, a thaith panto i'r Ffwrnes ddod â theuluoedd at ei gilydd i ddathlu.

Roedd y gweithgareddau ychwanegol yn cynnwys adrodd straeon, chwarae anniben, a sesiynau synhwyraidd, gan gynnwys profiad baddon sain dan arweiniad Leanne o Sound Bath Swansea. Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth ariannol barhaus sydd wedi ein galluogi i ddarparu profiadau cynhwysol, cyfoethog a gwella lles, hyder a pherthnasoedd teuluol.

Canolfan Deuluol RAY Ceredigion

Uchafbwyntiau

> *Rwy'n joio dod – mae'n wych i'r plant ac i ni famau gael cwrdd a chael sgwrs. Wrth fy modd bod cinio ar gael*

- Eleni rydyn ni wedi cymryd rhan yn y Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy. Gweithio gyda'n hymarferydd i sicrhau bod ein canolfan yn bodloni eu holl feini prawf.
- Rydym wedi cynnal rhaglen Meithrin Rhieni lwyddiannus iawn - Cysylltiadau Teuluol, gyda 90% o'r mynychwyr yn cwblhau'r sesiynau.
- Mae rhai o'n teuluoedd yn teithio dros 10 milltir i fynychu ein sesiynau yma yn y ganolfan.

TROSOLWG O'R FLWYDDYN

Am flwyddyn rydyn ni wedi'i chael eleni.

Rydym yn llwyddo i gynnig digonedd o sesiynau gwahanol i'n teuluoedd, ac mae mwy a mwy ohonyn nhw'n dod i'r ganolfan. Roedd hyn yn cynnwys 2 daith wych.Un i Barc Fferm Ynys Aberteifi a'r llall i'r Gerddi Botaneg. Mae'r teithiau hyn wedi cynnig dau gyfle anhygoel i deuluoedd greu atgofion bythgofiadwy heb y straen ariannol. Mae'r profiadau hyn wedi bod yn chwa o awyr iach.



Dros y flwyddyn rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau amrywiol, o Ceredigion Actif i Dîm Iechyd y Cyhoedd Hywel Dda.

Dros yr haf gwnaethom gynnig rhai sesiynau Fan Chwarae Gymunedol Mynediad Agored yn Llanrhystud a Llanon. Boed law neu hindda, roedden ni yno yn cefnogi creadigrwydd, symudiad a chysylltiadau cymdeithasol y plant.

Ochr yn ochr â'n staff gwych rydym wedi cael ein helpu gan rai gwirfoddolwyr anhygoel, sydd i gyd yn dod â'u rhinweddau eu hunain.

Canolfan Deuluol St Paul

Uchafbwyntiau

Alla i ddim rhoi digon o ganmoliaeth i'r Ganolfan Deuluol a'r effaith gadarnhaol y mae wedi'i gael ar fy mhlentyn a minnau

- Cyflwynwyd ein grŵp cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol wythnosol, "Wiggles & Giggles", gan ddarparu cefnogaeth, cyfleoedd chwarae, ac arweiniad i blant a theuluoedd.
- Digwyddiadau codi arian "Peintio gyda Jules" i oedolion, gan hyrwyddo ymgysylltu cymunedol, lles, a chodi arian i gefnogi gweithgareddau'r ganolfan deuluol.
- Cryfhau gwaith partneriaeth gydag Ysgol Gynradd Bigyn drwy sesiynau wythnosol a gynhelir ym meithrinfa'r ysgol i ymgysllltu gyda teuluoedd newydd.

TROSOLWG O'R FLWYDDYN

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â Chanolfannau Teuluol Felin-foel a Morfa i gynnig amrywiaeth o weithgareddau a sesiynau cymorth i deuluoedd lleol. Mae'r rhain wedi cynnwys teithiau teuluol, gweithgareddau allgymorth, a gweithdai costau byw. Rydym hefyd wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol ochr yn ochr ag amrywiaeth o sefydliadau partner, gan gynnwys Tîm Trawsnewid Tyisha.

Mae teuluoedd wedi cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys Tap, Tap a Sgwrs, Tylino Babanod, a chlybiau cinio wythnosol, gan helpu i leihau unigrwydd ac adeiladu perthnasoedd cefnogol o fewn y gymuned.



Yn ystod y gwyliau haf, gwnaethom lwyddo i gael mynediad i'r grant Nourish the Nation, gan ein galluogi i wella ein rhaglen chwe wythnos. Gwnaeth teuluoedd fwynhau teithiau gyda phecynnau cinio, cwrs Coginio Gyda'n Gilydd chwe wythnos, Diwrnod Chwaraeon i'r Teulu, a Barbeciw Haf.

Ymunodd teuluoedd hefyd â dathliadau'r Nadolig, gan gynnwys ein Gwasanaeth Cristingl blynyddol, parti plant, a Charnifal Nadolig Llanelli. Yn ystod y flwyddyn newydd lansiwyd ein grŵp cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol, Wiggles & Giggles, yn llwyddiannus.

Meithrinfa St Paul

Uchafbwyntiau

Mae'r staff yn gefnogol, yn ymroddedig ac yn dosturiol. Mae hyder, chwilfrydedd a chariad fy merch at ddysgu wedi ffynnu.

- Yn dilyn ein harolwg gan Arolygiaeth Gofal Cymru, gwnaethom gyflawni Rhagoriaeth mewn Lles Plant ac Arweinyddiaeth a Rheolaeth, a Da yn y categori Amgylchedd a Gofal a Datblygu.
- Trwy gais llwyddiannus am Grant Cyfalaf Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, gwnaethom osod ffenestri a drysau newydd ar draws yr adeilad.
- Gwnaethom brynu bygi 6 sedd trwy Gronfa Darparwyr Gofal Plant Dechrau'n Deg, gan alluogi staff a phlant i dreulio mwy o amser yn yr awyr agored yn y gymuned leol.

TROSOLWG O'R FLWYDDYN

Trwy gydol y flwyddyn, rydym wedi parhau i ddatblygu a gwella ein hamgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored i gefnogi lles, creadigrwydd a datblygiad plant. Creodd staff ardal chwarae rôl bwrpasol yn y lolfa, gan gyflwyno thema newydd bob tymor gan gynnwys ysbyty, siop hufen iâ, a siop trin gwallt. Mae'r profiadau hyn wedi annog chwarae dychmygus, cyfathrebu, a rhyngweithio cymdeithasol.

Mae'r ardal awyr agored hefyd wedi'i gwella'n sylweddol drwy ychwanegu cegin fwd fwy o faint, gan roi mwy o le i blant archwilio gyda dŵr, pridd, potiau, sosbenni, a deunyddiau naturiol trwy chwarae synhwyraidd ac archwiliol.



Trwy brynu'r bygi, y mae'r plant yn ei alw'n "Fws St Paul", rydym wedi gallu ymweld â'r parc a'r ysgol leol, Home Bargains gerllaw, y Swyddfa Bost, a mannau gwyrdd lleol. Mae hyn wedi agor cyfleoedd newydd i blant archwilio a datblygu ymdeimlad o berthyn yn eu cymuned.

Canolfan Deuluol Tregaron

Uchafbwyntiau

"Mae mor braf yma, dwi bob amser yn teimlo'r gofal pan dwi'n dod a does dim angen i mi boeni am unrhyw beth."

- Parhawyd â'r mannau cynnes hynod boblogaidd, i bawb o bob oedran, gan weini 1013 o brydau yn ystod y flwyddyn. Mae nawr hefyd yn cael ei fynychu gan ymwelydd iechyd yn rheolaidd.
- Rhoddodd ein sesiynau Amser Stori/Rhigwm a Chwarae Synhwyraidd gyfleoedd a syniadau i deuluoedd i helpu i gefnogi datblygiad iaith a lleferydd eu plant.
- Cynigiwyd amrywiaeth o sesiynau egnïol; gan annog symudiad, datblygiad corfforol a gwybyddol, a lles teuluol cyfannol e.e. sesiynau chwarae actif, syrcas a Zumbini.

TROSOLWG O'R FLWYDDYN

Gwnaethom gefnogi nifer fawr o deuluoedd trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys Tadau a neiniau a theidiau, gan greu amgylchedd croesawgar a chyfeillgar i bawb.

Gyda chefnogaeth ein gwirfoddolwyr ymroddedig, gwnaethom ddarparu gwasanaeth cyson a pharhaus er gwaethaf llawer o newidiadau staff yn ystod y flwyddyn.

Mae Mannau Cynnes yn parhau i fod yn hynod boblogaidd, gan ddod a'r gymuned ehangach at ei gilydd i fwynhau pryd o fwyd maethlon am ddim. Gwnaethom gynnal sesiynau mewn cartref preswyl lleol, gan adeiladu cysylltiadau cymunedol cryf.

Gwnaethon fwynhau parti haf gwych a fynychwyd gan 89 o bobl gan gynnwys y Prif Weinidog Eluned Morgan.



Gwnaethom groesawu llawer o famau tro cyntaf mewn sesiynau tylino babanod a synhwyraidd. Mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus iawn ac maen nhw'n ffordd hyfryd o gyflwyno rhieni newydd i'r ganolfan. Mae'r Ymwelydd Iechyd bellach yn mynychu ein sesiynau Aros a Chwarae/Mannau Cynnes bob mis: mae teuluoedd wedi elwa o allu cael cyngor a chymorth am ddim.

Mae teuluoedd wedi datblygu sgiliau newydd drwy fynychu cwrs Babbling Babies, y llenwyd pob lle ynddo.

Canolfan Deuluol y Tymbl

Uchafbwyntiau

> *Wnes i ddim gadael y tŷ ar ôl iddo gael ei eni, mae'r grwpiau wedi bod yn achubiaeth*


- Sicrhau cyllid cyfalaf i ailddatblygu Neuadd Eglwys Dewi Sant a chreu cartref parhaol newydd i'r ganolfan deuluol
- Cynyddu ein capasiti i ddarparu mwy o sesiynau a gweithgareddau i'r teuluoedd, plant a phobl ifanc yn ein cymuned
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol ar draws Cwm Gwendraeth

TROSOLWG O'R FLWYDDYN

Mae 2025/26 wedi bod yn flwyddyn gadarnhaol a chynhyrchiol arall i Ganolfan Deuluol y Tymbl. Rydym wedi parhau i gynnig gofod croesawgar, cynhwysol lle gall plant, pobl ifanc a theuluoedd gael mynediad at gymorth, cyfleoedd chwarae a chysylltiadau cymunedol. Trwy gydol y flwyddyn gwnaethom gyflwyno amrywiaeth o sesiynau blynyddoedd cynnar, gweithgareddau i'r teulu, darpariaeth clwb ieuenctid, rhaglenni gwyliau a digwyddiadau cymunedol. Mae ein gwasanaethau wedi helpu teuluoedd i deimlo'n llai unig, magu hyder, gwella lles a datblygu perthnasoedd cryfach. Gwnaethom barhau i weithio'n agos gydag ysgolion lleol, gweithwyr iechyd proffesiynol, Plant Dewi a phartneriaid



cymunedol eraill i sicrhau y gallai teuluoedd gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt. Un cyflawniad pwysig eleni oedd sicrhau cyllid tuag at ailddatblygu Neuadd Eglwys Dewi Sant. Bydd y prosiect hwn yn creu cyfleuster cymunedol modern, hygyrch a fydd yn ein galluogi i ehangu ein gwasanaethau a sicrhau cynaliadwyedd hirdymor. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i gefnogi teuluoedd ar draws ein cymuned ac edrychwn ymlaen at adeiladu ar y llwyddiant hwn yn y flwyddyn i ddod.



Canolfan Deuluol Tŷ Hapus

Uchafbwyntiau

"Gofod cynnes, croesawgar a grwpiau cefnogol, addysgiadol gyda gweithgareddau gwych a snacs iach. Mae'n arbennig o fuddiol yn ystod yr argyfwng costau byw."

- Gwnaethom ddathlu pen-blwydd y Ganolfan Deuluol yn 30 oed gyda pharti, gan ddod â theuluoedd, staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr o'r gorffennol a'r presennol ynghyd.
- Gwnaethom droi ardal awyr agored yn ofod natur a lles addysgol, gan greu cyfleoedd newydd ar gyfer dysgu awyr agored, chwarae a lles.
- Gwnaethom leihau rhwystrau i gyfranogiad trwy deithiau, digwyddiadau a thrafnidiaeth wedi'i sybsideiddio, gan alluogi mwy o deuluoedd i gael mynediad at brofiadau a chymorth gwerthfawr.

TROSOLWG O'R FLWYDDYN

Parhaodd y Ganolfan Deuluol i gynnig amgylchedd croesawgar a chefnogol i deuluoedd lleol. Trwy sesiynau, gweithgareddau a chymorth targedig rheolaidd, gwnaeth ein teuluoedd leihau unigrwydd, gwella eu lles, meithrin hyder a sgiliau, a chryfhau eu perthnasoedd. Cafodd plant a theuluoedd gyfleoedd rhyngweithio cymdeithasol, profiadau awyr agored a lles, gweithgareddau creadigol a dysgu trwy chwarae, mewn lleoliad diogel a chynhwysol.

Mwynhaodd teuluoedd amrywiaeth o deithiau, digwyddiadau tymhorol a gweithgareddau cymunedol, gan gynnwys ymweliadau â pharciau, y Ganolfan Gwlyptiroedd, y Gerddi Botaneg, ffermydd, traethau ac atyniadau lleol. Gwnaeth cludiant bws mini alluogi mwy o deuluoedd i gymryd rhan, gan helpu i leihau rhwystrau a achosir gan drafnidiaeth gyfyngedig a phwysau ariannol.



Gwnaeth gwaith partneriaeth barhau'n ganolog i'n dull gweithredu, gan alluogi teuluoedd i gael mynediad at weithdai ymarferol, gwasanaethau arbenigol a chymorth ychwanegol pan fo angen.

Cwblhaodd staff hyfforddiant amrywiol mewn llythrennedd corfforol, deall tlodi, hawliau plant, codi a chario, a phrosesu synhwyraidd.

Rydyn ni'n hynod ddiolchgar i'n cyllidwyr: Teuluoedd yn Gyntaf/Dechrau'n Deg, The Masonic Charitable Foundation, Postcode Community Trust, Sefydliad Garfield Weston, Cronfa Gymunedol Cymru a Chronfa GBI.

SESIYNAU


CHWARAE
CLWB CINIO BACH
CHWARAE ANNIBEN
CLWB LEGO
PARC FFERM YNYS ABERTEIFI
ZUMBINI CYNFASAU NADOLIG
O FWMP I FABI
PANED
TAITH WWT
TEITHIAU
BWMPS A BABIS
TAP TAP A SGWRS
AROS A CHWARAE YN EGLWYS Y BEDYDDWYR
CREFFTAU
PARTI NADOLIG
CANU A CHWARAE YNG NGHARTREF GOFAL CEFNOGWYR ANNWYL FAN
PANED
DISGO NADOLIG
AROS
ZUMBINI
CYNLLUN CLWB CINIO
CREFFT A SGWRS
TANWYDD
BORTH ACTIF
TEITHIAU
IAITH
CAFFI CREADIGOL
TEITHIAU SINEMA
PLANT DEWI
SIARADWYR BACH
DRE TWO
CYSYLLTIADAU TEULUOL
CHWARAE SYNHWYRAIDD
TYLINO BABANOD
SESIYNAU GARDDIO
AROS A CHWARAE
DIWRNOD HWYL I'R TEULU
EIN CEGIN
PECYNNAU COGINIO
CYNGOR YNNI AROS
SLOT GWEITHDAI
GRŴP PLANT BACH
AMSER CHWARAE
IAITH ANTURWYR BACH
CHWARAE AWYR AGORED
GRŴP BABANOD
SINEMA

CANLYNIADAU

Mae'r staff yn anhygoel, rwy'n teimlo croeso cynnes. Fel arfer, rydw i'n berson nerfus iawn ond rwy'n teimlo mor dawel fy meddwl yma.

Alla i ddim diolch ddigon i'r tîm am eu gofal gwych, eu hanogaeth a'r atgofion hyfryd maen nhw wedi'u rhoi i ni fel teulu.

Mae'r staff mor gefnogol a wir yn poeni am ein teulu ni.

"Mae'r gefnogaeth gan y grŵp yn eich helpu i deimlo'n llai unig a phryderus."


Rwy'n hoffi dod i chwarae gyda fy ffrindiau ar ôl ysgol ac rwy'n caru'r siop

"Fyddwn i byth wedi meddwl y byddai fy mhlant i'n mwynhau amgueddfa - cawson ni'r diwrnod gorau, diolch "

"Mae'r grŵp babanod yn cefnogi perthnasoedd hanfodol rhwng rhieni a phlant."

Mae'r staff yn sêr. Maen nhw bob amser mor groesawgar a byth yn barnu o gwbl. Fe wnaethon nhw i mi deimlo 'mod i'n gwneud yn iawn.

Rhoddodd y grŵp magu plant yn gynharach yn y flwyddyn dechnegau defnyddiol i mi (fel ymarferion anadlu) sy'n handi iawn



"Magu hyder, gwneud ffrindiau, dod a theuluoedd a'r gymuned at ei gilydd"

Mae'r staff yn gwneud i ni deimlo'n gyfforddus, maen nhw'n anfeirniadol, yn ddibynadwy a wir yn gwrando.

Mae'r staff yn anhygoel ac mae gwybod bod cefnogaeth ar gael yn gwneud i fi deimlo lot gwell

"Alla i ddim ffeindio bai gyda'r gwasanaeth. Dydw i erioed wedi profi gwaith cymorth mor wych, manwl, croesawgar a holistig. Amddiffynnwch nhw gyda'ch bywydau."

'Mae'n wych cael sesiynau sydd wedi'u cynllunio i fi a'r plant - cawson ni amser gwych, ac mae fy mhlentyn yn gofyn byth a hefyd am y sesiwn nesaf'

Lle diogel i ymweld a chwrdd ag eraill, mae fel pentref bach sy'n helpu'ch plant i dyfu i fyny.

Rhoddodd seibiant i mi o'r drefn arferol. Mae fy niwrnod yn hapusach ers dechrau, sy'n ei wneud e'n hapusach. Rydw i nawr yn fwy cyfforddus yn cymdeithasu.

Roedd y diwrnod agored yn hyfryd. Fe wnes i fwynhau crefft gyda fy mhlant ac roedd y bwyd yn flasus hefyd.

"Diolch i chi am wneud cymaint o wahaniaeth pan ddaethon ni i'r grŵp. Rydyn ni'n gwybod fel rhieni newydd nad ydyn ni ar ein pen ein hunain."

Roedd cerdded i mewn i sesiwn Jigso fel cerdded i mewn i ystafell lawn ffrindiau sy'n cefnogi ei gilydd drwy bopeth. Hefyd mae'r staff fel petaen nhw'n gwybod yn union beth sydd ei angen arnoch chi. O baned i ychydig o gyngor neu gyfle i rannu problemau. Diolch xx

'Mae'r plant wrth eu bodd gyda'r coginio, ac mae'n wych eu gweld nhw'n treio blasau a gweadau newydd.'

"Doeddwn i ddim yn gwybod bod hyn yn bodoli hyd yn oed. Rwy'n falch iawn o fod wedi dod o hyd i'r hafan fach hon."

LLUNIAU






Hinduism
Sikhism











Canolfan Deuluol Y Tymbl
Tumble Family Centre
Canolfan Deuluol Y Tymbl
Tumble Family Centre


DIOLCH YN FAWR

Diolch yn fawr iawn i'r holl gyllidwyr sydd wedi cefnogi Plant Dewi a'r canolfannau teuluol yn ystod y flwyddyn. Rydym hefyd yn diolch i'n hymddiriedolwyr, staff, gwirfoddolwyr, sefydliadau partner a chefnogwyr ymroddedig sy'n ei gwneud hi'n bosibl estyn allan at gynifer o deuluoedd ledled Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion.

Teuluoedd yn Gyntaf
Families First

Garfield Weston
FOUNDATION

EGIN
Cefnogi cymunedau i daclo newid hinsawdd
Supporting communities to tackle climate change

Dechrau'n Deg
Flying Start

Mothers' UNION
Christian care for families

Cenhadaeth Ffydd Llawenydd
Mission Faith Joy

Baby Bank Alliance.

Freemasons' Charity

Supported by players of
PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

Awarded funds from
POSTCODE COMMUNITY TRUST

TESCO

Cyngor Sir Ceredigion
County Council

Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi
WCVA CGGC
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
Landfill Disposals Tax Communities Scheme

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

Community Foundation Wales

Cyngor Sir Penfro - Pembrokeshire County Council

The Henry Smith Charity
founded in 1628

2026-27

EDRYCH YMLAEN

Wrth edrych ymlaen, rydym yn parhau i fod yn uchelgeisiol ac optimistaidd. Dros y flwyddyn i ddod, byddwn yn parhau i wella ein defnydd o'r gronfa ddata Views i gofnodi a dangos tystiolaeth o'n heffaith yn well. Byddwn hefyd yn recriwtio Cydlynydd Gwirfoddolwyr drwy gyllid gan grant Gwirfoddoli Cymru CGGC, gan gryfhau recriwtio, hyfforddiant a chyfraddau cadw gwirfoddolwyr ar draws y sefydliad.

Yn ogystal, bydd cynllunio'n dechrau ar gyfer 25 mlwyddiant Plant Dewi yn 2027, gan roi cyfle cyffrous i ddathlu cyflawniadau'r chwarter canrif diwethaf wrth weithredu ein Strategaeth Codi Arian ac edrych yn hyderus tua'r dyfodol.

Ar ran pawb yn Plant Dewi, hoffem ddiolch i'n staff, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr, cyllidwyr, partneriaid, cefnogwyr, ac wrth gwrs y teuluoedd, am eu hymroddiad a'u haelioni parhaus. Eu hymrwymiad nhw sy'n gwneud ein gwaith yn bosibl, a gyda'n gilydd rydym yn parhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a theuluoedd ledled Gorllewin Cymru.

I ddysgu mwy ewch i'n gwefan.....

www.plantdewi.org.uk/cy/hafan/

www.plantdewi.org.uk/cy/ein-gwaith/prosiect-y-tadau/

www.plantdewi.org.uk/cy/ein-gwaith/prosiect-rhieni-ifanc/

www.plantdewi.org.uk/cy/ein-gwaith/grwpiau-teuluoedd-gyda-gilydd/

www.plantdewi.org.uk/cy/ein-gwaith/banc-bwndel-babi/

www.plantdewi.org.uk/cy/ein-gwaith/canolfannau-teulu/

PLANT DEWI

Lle Mae Teuluoedd yn Bwysig
Where Families Matter

Plant Dewi, 21 Stryd y Brenin, Caerfyrddin SA31 1BH.
Ffôn : 01267 221 551

Plant Dewi, 21 King Street, Carmarthen SA31 1BH.
Tel: 01267 2221551